# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Mawrth 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 267(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw

(60 munud)

**NDM8850** Hannah Blythyn (Delyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 'Atebolrwydd Aelodau Unigol: Adalw' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2025.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Plant sydd ar yr ymylon

(60 munud)

**NDM8847** Buffy Williams (Rhondda)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef 'Plant sydd ar yr ymylon' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2025.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Cyllid seilwaith rheilffyrdd

(60 munud)

**NDM8852** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y DU mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru bod seilwaith rheilffyrdd Cymru wedi dioddef o lefelau hanesyddol isel o wariant ar welliannau dros nifer o flynyddoedd;

b) bod y tanariannu systematig hwn yn ychwanegol at gadw cyllid canlyniadol HS2 yn ôl; ac

c) yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn 2020, bydd Cymru, o gymharu â'i chyfran o boblogaeth y DU a hyd llwybr y rhwydwaith rheilffyrdd, yn wynebu diffyg o rhwng £2.4 biliwn a £5.1 biliwn mewn cyllid i wella ein rheilffyrdd ar sail ymrwymiadau Llywodraeth y DU dros y cyfnod rhwng 2019 I 2029.

2. Yn gresynu:

a) bod adroddiadau yn nodi bwriad Canghellor y DU i rewi gwariant ar brosiectau rheilffyrdd newydd mawr tan ar ôl etholiad nesaf y DU, a fyddai'n dwysau ymhellach y tanariannu systematig ar gyfer rheilffyrdd Cymru, a hynny am o leiaf bedair blynedd arall; a

b) bod addewidion blaenorol Llywodraeth y DU ar seilwaith rheilffyrdd, a oedd ynddynt eu hunain yn annigonol i wneud iawn am danariannu hanesyddol, megis yr addewid i drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru, wedi methu â chael eu gwireddu.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) darparu ffigyrau wedi'u diweddaru ar y diffyg mewn-fuddsoddiad i wella'r rheilffyrdd yng Nghymru;

b) cadarnhau ei safbwynt y dylid ail-ddynodi HS2 yn brosiect i Loegr yn unig ac y dylai Cymru gael y symiau canlyniadol yn unol â ffigyrau a ddyfynnwyd gan Weinidogion presennol Llywodraeth y DU pan mewn gwrthblaid; ac

c) ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y DU i ofyn i'r symiau canlyniadol llawn gael eu rhyddhau i Gymru a gwrthdroi lefelau isel o wariant ar welliannau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu:

a) bod Llywodraeth y DU wedi cydnabod y lefelau hanesyddol o isel o wariant ar y rheilffyrdd yng Nghymru; a

b) y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cefnogi cyfres o flaenoriaethau ar gyfer gwella'r rheilffyrdd a bennwyd gan fwrdd Rheilffyrdd Cymru.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau:

a) cyllid ar gyfer cyfres uchelgeisiol o welliannau i'r rheilffyrdd, gan gychwyn gyda chyflawni argymhellion Comisiynau Trafnidiaeth Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru;

b) adolygiad o brosesau buddsoddi Network Rail er mwyn sicrhau bod Cymru'n derbyn cyfran deg o fuddsoddiad Network Rail yn y dyfodol;

c) cyllid ar gyfer gwelliannau i Linellau Craidd y Cymoedd; a

d) lefel briodol o gymhared gyda rhaglenni perthnasol Llywodraeth y DU o fewn fformiwla Barnett, gan gydnabod bod y cyfrifoldeb am y rhan hon o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru bellach wedi'i ddatganoli.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ym mhwynt 2, dileu is-bwynt b)

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8848** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Sicrhau bod gan Gymru sector prifysgol lewyrchus.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/03/2025 i'w hateb ar 12/03/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS DRAFNIDIAETH A GOGLEDD CYMRU

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ62418 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hygyrchedd gwasanaethau trenau a bysiau yn Nwyrain De Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

2 OQ62412 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella diogelwch ar y ffyrdd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

3 OQ62424 **(e)**

Pa fesurau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cael ei redeg fel busnes cystadleuol ac effeithlon?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

4 OQ62421 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda Trafnidiaeth Cymru ynghylch gwell cysylltedd trafnidiaeth ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2025 yn Wrecsam?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ62446 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau gwytnwch croesiad Pont Britannia?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

6 OQ62434 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau cadernid y rhwydwaith priffyrdd yn erbyn llifogydd?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ62441 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod llwybrau teithio llesol yn hygyrch i bobl ag anableddau?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

8 OQ62416 **(e)**

Beth yw cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ62426 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella seilwaith trafnidiaeth ar draws Gorllewin De Cymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

10 OQ62442 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cysylltedd trafnidiaeth da cyn gwyliau a digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

11 OQ62413 **(e)**

Faint mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi mewn gwariant cyfalaf ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghonwy a Sir Ddinbych ers mis Mai 2021, a beth yw'r buddsoddiad cyfalaf arfaethedig dros y 12 mis nesaf?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ62419 **(d)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan drigolion Gorllewin De Cymru fynediad at wasanaethau bysiau?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYFIAWNDER CYMDEITHASOL, Y TREFNYDD A'R PRIF CHWIP

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ62440 **(e)**

Pa drafodaethau y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch lleddfu tlodi plant?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

2 OQ62429 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gydag Ofgem ynghylch taliadau sefydlog?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

3 OQ62420 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch darparu cymorth priodol i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o garchardai Cymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ62427 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pensiynwyr ar draws Gorllewin De Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ62435 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch y broses o wneud cais am fathodynnau glas?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ62437 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar weithdrefnau penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OQ62439 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am hygyrchedd llochesi yng ngogledd Cymru ar gyfer menywod sy'n dioddef ymosodiad rhywiol ac sy'n gwella o ddefnyddio sylweddau?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

8 OQ62445 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sefydlu asiantaeth atal troseddau newydd i wella diogelwch cymunedol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

9 OQ62425 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adeiladu cymunedau cryfach ym Mhreseli Sir Benfro?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ62438 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi ymysg menywod yn Nwyrain De Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

11 OQ62443 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pensiynwyr?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ62448 **(e)**

Sawl rhywedd y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod?